# Disgrifiad Swydd

## Y Prif Ddyletswyddau

- Bod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer aelodau a darpar aelodau ar draws sianeli cyfathrebu amrywiol, gan ddarparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid.
- Rheoli a chydlynu cylch bywyd aelodaeth cyfan, gan gynnwys adnewyddiadau, cyfathrebu, a hyrwyddo cynigion a manteision aelodaeth er mwyn ymgysylltu cymaint â phosibl
- Arwain y gwaith o gydlynu a darparu gwasanaethau o ansawdd uchel i aelodau, gan sicrhau profiad cadarnhaol a di-dor i'r holl aelodau.
- Cefnogi'r gwaith o gyflwyno rhaglen Dyfarniad QED Tai Pawb yn llwyddiannus, gan sicrhau cydlynu a gweinyddu didrafferth.
- Casglu, dadansoddi ac adrodd ar ymgysylltu ac ar ddangosyddion perfformiad allweddol yr adran er mwyn llywio'r broses o wneud penderfyniadau a gwella'r gwaith o ddarparu gwasanaethau
- Casglu a defnyddio adborth i fonitro, gwerthuso a gwella gwasanaethau Tai Pawb a'r hynny mae aelodaeth yn ei gynnig, gan ddatblygu ymatebion wedi'u teilwra i ddiwallu anghenion aelodau.
- Defnyddio'r system CRM yn effeithiol i drefnu a chofnodi gweithgarwch aelodaeth a gwella ymgysylltiad a gwasanaethau aelodaeth
- Defnyddio adborth i gefnogi, monitro a gwerthuso gwasanaethau ac aelodaeth Tai Pawb, gan ddatblygu ymatebion priodol i sbarduno gwelliant parhaus.

# Disgrifiad Swydd

## Hanfodol

**Gwybodaeth a Phrofiad**

- Profiad o rôl sy'n delio â chwsmeriaid gan ganolbwyntio ar wasanaeth o safon uchel.
- Y gallu i rwydweithio a meithrin cysylltiadau ar wahanol lefelau.
- Profiad o drefnu gwasanaethau neu gyfarfodydd a chefnogi'r gwaith o ddarparu gwasanaethau.

**Sgiliau a Chymwyseddau**

- Ymrwymiad cryf ac amlwg i degwch, amrywiaeth a chynhwysiant
- Y gallu i gymell eich hun ynghyd â sgiliau rhagorol o ran trefnu, gweinyddu a rheoli amser
- Sgiliau rhyngbersonol a meithrin cysylltiad rhagorol gyda phobl ar bob lefel
- Y gallu i weithredu ar eich liwt eich hun, blaenoriaethu llwyth gwaith, a rhoi sylw rhagorol i fanylion

## Dymunol

- Dealltwriaeth o'r sector tai, megis gweithio i sefydliad tai neu adran dai mewn Awdurdod Lleol
- Dealltwriaeth o faterion yn ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth, a phrofiadau, heriau a materion sy'n effeithio ar unigolion, cymunedau a sefydliadau (gall hyn gynnwys profiad uniongyrchol)
- Profiad o reoli cyfrifon/cysylltiadau
- Y gallu i gyfathrebu'n Gymraeg

